**ADRODDIAD I'R CABINET**
16 GORFFENNAF 2013

| | |
|---|---|
| **Aelod Cabinet:** | CYNGHORYDD PEREDUR JENKINS<br>AELOD CABINET ADNODDAU |
| **Pwnc:** | CYLLIDEB REFENIW 2013/14 –<br>ADOLYGIAD CHWARTER CYNTAF (MEHEFIN 2013) |
| **Swyddog Cyswllt:** | DAFYDD L EDWARDS, PENNAETH CYLLID |

---

## 1. Y penderfyniad a geisir

1.1 Nodi'r rhagolygon diweddaraf o sefyllfa cyllideb 2013/14 a gofyn i'r Aelodau Cabinet a'r penaethiaid adrannau perthnasol gymryd camau priodol ynglyn â materion o dan eu rheolaeth.

1.2 Cymeradwyo dychwelyd arian 'bid' (£110k) o'r gyllideb Addysg i falansau cyffredinol (tudalen 8 o Atodiad 2).

## 2. Cyflwyniad

2.1 Yn unol â'r drefn arferol, cyflwynir yr adroddiad chwarterol yma ar yr adolygiad diweddaraf o gyllideb refeniw 2013/14.

2.2 Gan ei bod mor fuan yn y flwyddyn, nid yw'r holl dueddiadau gwariant yn eglur, ac mae'r adroddiad ar gyfer y chwarter cyntaf yn dueddol o ganolbwyntio ar faterion sydd wedi dod i'r amlwg ers paratoi'r gyllideb ac unrhyw broblemau o sylwedd sydd wedi amlygu eu hunain yn y cyfamser.

2.3 Mae'n gynnar i ddod i ganlyniad pendant am y perfformiad ariannol tebygol erbyn diwedd y flwyddyn ariannol. Er hynny, mae tueddiad tuag at orwariant ar rai penawdau gwariant (ac incwm) eisoes, sy'n awgrymu risg o orwariant go sylweddol mewn 4 Adran. Er hynny, ar hyn o bryd, cadarnhaf fod yr adrannau perthnasol yn cymryd camau i geisio rheoli cyllideb eleni o fewn ei adnoddau.

2.4 Yn **Atodiad 1** mae crynhoad o'r sefyllfa fesul Adran, ac yn **Atodiad 2** mae manylion pellach ynglŷn â'r prif faterion a meysydd ble rhagwelir gwahaniaethau sylweddol (lle rhagwelir gor-/tan-wariant yn 2013/14 ar sail profiad y chwarter gyntaf).

2.5 Yn 2013/14, ni ddisgwylir sefyllfa gor na than wariant o sylwedd yn yr Adrannau a'r Gwasanaethau ni chrybwyllir yn Atodiadau 1 a 2. Hynny yw, mae arwyddion cynnar yn awgrymu bydd sefyllfa cyllidebau net yr Adrannau Adnoddau Dynol, Cyllid, Gofal Cwsmer a Strategol a Gwella yn lled niwtral eleni. Yn yr un modd, lle ni chrybwyllir rhai Gwasanaethau, megis holl wasanaethau Priffyrdd oddigerth Gwastraff, ni ddisgwylir gwahaniaethau sylweddol rhwng y gyllideb a'r gwir wariant.

2.6 Mae sawl mater ym maes Gwastraff wedi'u hamlygu ar dudalennau 13-15 o Atodiad 2. Mae'r Pennaeth Priffyrdd a Bwrdeistrefol yn adolygu trefniadau gyda golwg ar leihau'r gorwariant £800k a ragwelir yn 2013/14. Byddwn yn cydweithio gydag ef a'r Aelod Cabinet cyn adrodd i'r Cabinet ar gamau perthnasol yn ein adolygiad ail chwarter.

2.7 Mae rhai penawdau cyllideb yn yr Adran Gwasanaethau Cymdeithasol (Gwasanaethau Oedolion a Darparu ar dudalennau 1-5 o Atodiad 2) lle mae rhagolygon cynnar o orwariant (cyfanswm net £253k). Fodd bynnag, gan fod yr adolygiad yma mor gynnar yn y flwyddyn, dylid trin y ffigyrau yma fel "rhybudd cynnar" o bosibiliadau yng nghyd-destun cyfanswm cyllideb adrannol dros £50m.

2.8 Gwyddom eisoes fod y mater o bryder yn yr Adran Economi a Chymuned yn y maes Morwrol, ac incwm Hafan Pwllheli yn benodol (tudalen 11 o Atodiad 2). Rwyf wedi trafod hyn eto gyda'r Pennaeth Adran sy'n bwriadu adrodd ar y ffordd ymlaen yn yr hydref.

2.9 Cafodd sefyllfa cyllideb y Gwasanaeth Ymgynghoriaeth sylw manwl dros y misoedd diweddar ac mae'r rhagamcan sydd yma o sefyllfa cyllideb 2013/14 yn un ceidwadol tra'n nodi fod camau eisoes ar droed yno.

## 3. Camau nesaf ac amserlen

3.1 Disgwylir i'r Aelodau Cabinet a'r penaethiaid perthnasol barhau i gadw llygad ar y materion amlygwyd yn Atodiad 2.

3.2 Adroddir ymhellach gyda mwy o fanylder a mwy o sail i'n rhagamcanion wedi dysgu o brofiad yr ail chwarter (gan gofio fod yr adroddiad yma wedi'i baratoi **cyn** diwedd y chwarter cyntaf).

**Barn yr aelod lleol**
Dim yn berthnasol

**Barn y swyddogion statudol**

**Y Prif Weithredwr:**
Mae'r adroddiad yn nodi ei bod yn fuan iawn yn y flwyddyn ariannol i wneud asesiad iawn o dueddiadau, mae adnabod unrhyw broblemau yn fuan yn allweddol er iechyd ariannol y Cyngor. Rwy'n sicr y bydd y Penaethiaid Adran a'r Aelodau Cabinet perthnasol yn rhoi sylw manwl i unrhyw achosion o bryder dros yr wythnosau a'r misoedd nesaf.

**Y Swyddog Monitro:**
Dim i'w ychwanegu o ran priodoldeb.

**Y Pennaeth Cyllid:**
Rwyf wedi cydweithio gyda'r Aelod Cabinet i baratoi'r adroddiad yma ac yn cadarnhau'r cynnwys.

**Atodiadau**
Atodiad 1
Atodiad 2